


GWYRTH GYNTAF IESU

Cafodd Iesu ei wahodd i ddatliad priodas yn Cana, pentref yn Galilea. Fe aeth yno efo Mair, ei fam. Gorffennodd y gwin cyn i'r parti priodas ddod i ben. Pan wnaeth Mair, mam Iesu ddeall hynny, dywedodd wrth Iesu. Wedyn dywedodd hi wrth y gweision am wneud beth bynnag roedd Iesu yn dweud wrthyn nhw am ei wneud. Roedd yna chwech ystên garreg i ddal dŵr a dywedodd Iesu wrth y gweision am eu llenwi nhw efo dŵr. Wedyn gwnaeth Iesu droi'r dŵr yn y chwech ystên yn win. Roedd y gwin hwn yn well o lawer na'r gwin oedd wedi ei weini yn gyntaf, a sylwodd y gwesteion ar hynny. Dyma wyrth gyntaf Iesu a dechrau ei waith ar y ddaear.




"Y wyrth hon yn Cana Galilea oedd y gyntaf wnaeth Iesu, fel arwydd o pwy oedd e. Roedd yn dangos ei ysblander, a dyma'i ddisgyblion yn credu ynddo." Ioan 2:11

Sut wnaeth Iesu
droi'r dŵr yn
win?



Chwilia am y potiau sydd yr un siâp a lliwia nhw yr un lliw.



Gwers 10

GWYRTH GYNTAF IESU

Testun y Beibl: Ioan 2:1-11

Adnod allweddol: Ioan 2:11

Pwrpas: Bydd y plant yn dysgu am wyrth gyntaf Iesu a wnaeth mewn parti priodas yn Cana, Galilea.

Nodwch os gwelwch yn dda

Cynlluniwch weithgareddau addas i'r plant yn eich grwp. Gall y gweithgareddau gael eu haddasu yn dibynnu ar faint, oed a gallu'r grwp, ynghyd â'r amser sydd ar gael ayb.

I Gwers

Yr athro/athrawes i ddangos y daflen waith i'r plant ac egluro'r dasg. Yna dywedwch wrth y plant y byddan nhw yn cael parti bach wedi iddyn nhw orffen y daflen. Yr athro i baratoi'r 'parti' tra mae'r plant yn gweithio.

Bydd angen:

Platiau bach

Bisgedi

Fferins/losin

Cwpanau bach

Ychydig o ddiod sudd - ond ddim llawer achos wedi iddyn nhw ei orffen byddwch yn rhoi dŵr iddyn nhw.

Yna gofynnwch "All un ohonoch chi droi'r dŵr yn sudd?" Nawr dylai'r athro ddarllen o'r Beibl, Ioan 2:1-11. Gellid dechrau gan ddweud, "Mae Iesu yn rhywun sy'n medru gwneud gwyrthiau. Un wyrth a wnaeth oedd mewn priodas amser maith yn ôl. Byddwn yn darllen a siarad am Iesu, y person arbennig yma heddiw."

Dyma rai pwyntiau i'w trafod efo'r plant:

- Roedd Mam Iesu yn ymddiried ynndo. Roedd hi'n gwybod pwy oedd e. Roedd hi'n gwybod mai Mab Duw oedd e a beth roedd e'n medru wneud.
- Roedd mam Iesu bob amser yn barod i helpu bobl eraill, felly gofynnodd hi i Iesu helpu bobl y parti.

- Roedd y gweision yn ufudd i'r Arglwydd Iesu.
- Gwnaeth Iesu brofi ei fod yn Fab Duw.
- Gwnaeth Iesu wneud ei wyrth gyntaf.
- Gwnaeth y gwin argraff dda ar bawb wnaeth ei yfed.
- Mae popeth mae Iesu'n ei wneud yn wych.

II Gweithgareddau

1 Yr Adnod Allweddol

a) Darllenwch yr adnod yn uchel:

"Y wyrth hon yn Cana Galilea oedd y gyntaf wnaeth Iesu, fel arwydd o pwy oedd e. Roedd yn dangos ei ysblander, a dyma'i ddisgyblion yn credu ynddo." Ioan 2:11

b) Eglurwch rhai o'r geiriau pwysig

- Gwnaeth Iesu ei wyrth gyntaf yn y briodas yma
- Dangosodd Iesu ei bwer a'i fod yn Dduw
- Gwnaeth y bobl wnaeth weld y wyrth hon gredu ynddo – "a dyma'i ddisgyblion yn credu ynddo"

c) Helpwch y plant i ddysgu'r adnod.

2 Cwestiynau adolygu i'r plant

- Lle oedd Iesu pan gododd y broblem yma – yn y briodas yntau yn rywle arall?
- Lle mae Iesu pan dach chi angen ei help, wrth eich ymyl yntau yn rywle arall?
- Beth wnaeth Iesu pan gododd y broblem? Wnaeth o wneud unrhyw beth?
- Beth mae Iesu yn ei wneud pan mae gynnoch chi broblem? Ydy o eisio eich helpu chi?
- Pa wyrthiau eraill dach chi yn gwybod amdanyn nhw?
- Beth all Iesu ei wneud yn eich bywyd chi?

III Diweddglo

Pan mae gen ti broblem, cer at Iesu fel y gwnaeth Mair. Gofyn iddo dy helpu di. Gall neb arall wneud gwyrthiau fel Iesu. Gall neb arall dy helpu di fel y gall o; adra, yn yr ysgol, efo ffrindiau ayb. Mae Iesu yn dal i wneud gwyrthiau heddiw. Mae'r ffaith fod yr haul yn codi bob bore yn wyrth a mae cael dŵr a bwyd bob dydd yn wyrth. Dychmyga sut fasai pe bai'r haul ddim yn codi bore fory. Felly mae yna lawer o wyrthiau mae Duw yn dal i'w gwneud heddiw. Rwyd ti dy hun yn un o wyrthiau Duw yn y byd heddiw.